

COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, Ffordd RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 18^{FED} EBRILL 2016 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd Dr S. Roy, (Cadeirydd)
Y Cyngorwyr W. Bagnall, Mrs G Baker; J Davies (Dirprwy Maer); Mrs L Edwards; R Foreman; D Griffiths; Mrs L. Griffiths; C Hughes; Mrs M Jones; A Khan; A Mason; Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; C Perry; Mrs V Perry; P. Richards; Mrs V Smith; S. Taylor; C Wood MBE; S Williams

SWYDDOG: Mrs T. Earley (Clerc y Dref)

409/15 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Agorwyd y cyfarfod gan y Maer a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd G. Ward.

410/15 Cyhoeddiadau gan y Maer:

Cyhoeddodd y Maer bod nifer da wedi bod yn bresennol yn y Cyngerdd Elusennol a gynhaliwyd ar ddydd Gwener, 15^{fed} Ebrill a bod penwythnos Gŵyl y Pedwardegau wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda llawer o ymwelwyr yn aros yn yr ardal leol. Atgoffwyd yr aelodau hefyd am y digwyddiad i ddathlu talent leol sydd i'w gynnal ar 22^{ain} Ebrill.

411/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

412/15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Rhoddodd y Clerc cyflwyniad byr am elfennau allweddol y Ddeddf, yn cynnwys: dyletswyddau'r cyrff lleol a enwyd, creu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, saith gôl llesiant, yr angen i weithredu yn unol â'r egwyddor am ddatblygiadau cynaliadwy, y pum dull o weithio, diffiniad o ddatblygiadau cynaliadwy, dolenni rhwng cyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol ag economaidd, tirlun polisi ehangach a phwyntiau allweddol arweiniad Llywodraeth Cymru i gynghorau tref a chymuned a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn byr o holi ag ateb ac yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried penodi un neu ddau i fod yn Hyrwyddwr Llesiant (efallai un allan o'r ddau brif bwyllgor).

Penderfynwyd gohirio penodi Hyrwyddwyr Llesiant / Cenedlaethau'r Dyfodol i gyfarfod arall.

413/15 Ymwelwyr â'r Cyngor yn y Dyfodol:

Cyflwynodd y Clerc cais gan y Cynghorydd D. Griffiths i wahodd Aelod y Cynulliad newydd ynghyd a Dr Amit Singh o Feddygfa Bae Penrhyn i ddod i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y pryderon am y ddarpariaeth o wasanaethau Meddygon Teulu yn y dyfodol, yn dilyn taflen newyddion a ddosbarthwyd yn

ddiweddar gan Dr Singh i'w gleifion yn amlygu'r gostyngiad yn y nifer o Feddygon Teulu a phryderon am y cymarebau uchel rhwng cleifion a Meddygon Teulu.

Cafwyd trafodaeth am bwy fyddai'r bobl fwyaf addas i'w gwahodd i gyfarfod i drafod y pryderon hyn, gyda'r awgrymiadau yn amrywio rhwng cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd, Meddygon Teulu eraill, yr Aelod Seneddol, Aelod y Cynulliad (yn dilyn yr etholiad).

Cyflwynwyd gwelliant i'r cynnig ac fe

Benderfynwyd:

- a. ***Ysgrifennu yn y lle cyntaf i wahodd Dr Singh (Meddygfa Bae Penrhyn) ynghyd a chynrychiolwyr o bob meddygfa Meddygon Teulu yn ardal Bae Colwyn: Rhoslan, Rysseldene, Cadwgan, Dr Patel a Dr Bisarya (Hen Golwyn) i ddod i gyfarfod i drafod unrhyw faterion y maent yn eu hwynebu wrth roi gwasanaethau Meddygon Teulu a dewisiadau / atebion i ymdrin â hwy.***
- b. ***Anfon crynodeb o'r pryderon hyn a'r atebion ar sut i ymdrin â rhain at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am sylwadau.***
- c. ***Dwysau'r pryderon efo'r AC newydd os nad yn fodlon efo unrhyw ymateb a dderbyniwyd.***

Gofynnwyd i'r blediais gael ei gofnodi fel y manylir isod:

O Blaid - 20 Aelod

Yn Erbyn - 1 Aelod (Cynghorydd W. Bagnall)

Atal Pleidlais - 1 Aelod (Cynghorydd Mrs L. Edwards)

414/15 Cofnodion:

- a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 7^{fed} Mawrth 2016***
- b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
 - i. ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 15^{fed} Mawrth 2016.***
 - ii ***Pwyllgor Gwobrwyo Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 16^{eg} Mawrth 2016***
 - iii ***Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 30^{ain} Mawrth 2016 (Drafft)***
 - v ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 5^{edn} Ebrill 2016 (Drafft).***

415/15 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hyn :

- a. Cofnod 364/15 – Gwobrwyo Gwasanaeth Hir:

Cyflwynodd y Clerc geiriad drafft polisi gwobrwyo gwasanaeth hir i gael ei ystyried.

Penderfynwyd mabwysiadu'r polisi gwobrwyo gwasanaeth hir fel y mae'n ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

- b.** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:
- i Cofnod 368/15(a) - Ystyried rhoi awdurdod dirprwyol i Bwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio i gymeradwyo prynu un neu ddwy loches bws ger Parc Eirias allan o'r hyn sy'n weddill yng nghronfa'r flwyddyn flaenorol am lochesi bws (£8,992) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
 - ii Cofnod 372/15 – Caeau'r Canmlwyddiant: Gofyn i GBSC ystyried dynodi Gerddi'r Frenhines i fod yn Gae Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
 - iii Cofnod 391/15(a) - Cynlluniau Chwarae'r Haf: Gofyn am bum sesiwn pob wythnos am bum wythnos am (uchafswm) amcangyfrif o £6,909.50 (gydag unrhyw brinder yn y gyllideb i gael ei ariannu o'r arian wrth gefn).
 - iv Cofnod 395/15 - IRPW: Mabwysiadu argymhellion 48, 49, 50, 52, 53 a 54 fel y maent yn ymddangos yn y cofnodion hynny,
 - v Cofnod 399/15(a) - Grantiau Ieuenctid: Cymeradwyo cario ymlaen digon o'r gyllideb i allu talu grantiau a ohiriwyd ym mlwyddyn ariannol 2016/17
 - vi Cofnod 399/15(c) - Grantiau Bach: Cymeradwyo talu'r grantiau bach olaf am 2015/16 fel y maent yn ymddangos yn y cofnodion hynny
 - vii Cofnod 399/15(d) – Rhodd: Cymeradwyo rhodd o £4,500 i Gronfa Ymddiriedolaeth Syr John Henry Morris Jones allan o gyllidebau grantiau ieuenctid a grantiau bach 2015/16 na wariwyd.
 - viii Cofnod 399/15(e) - Grant Mawr: Cymeradwy talu grant mawr a dderbyniwyd yn hwyr i Ofal Galar Cruse ac felly cynyddu'r gronfa grantiau mawr (o'r arian wrth gefn).
 - ix Cofnod 403/15(b)(ii) Cynnwys manylion cyswllt Cynghorwyr (rhifau ffôn ac / neu gyfeiriadau e-bost) yn yr Adroddiad Blynyddol, a fydd ar gael o'r wefan neu drwy gopi caled ar gais (i'w dosbarthu mewn manau cymunedol).

Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion y cyfeiriwyd atynt uchod.

- c** *Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion*

416/15 Promenâd Llandrillo yn Rhos:

Penderfynwyd cadarnhau eto, y grant o £5,200 a gymeradwywyd eisoes gan y Cyngor Tref (2014/15) tuag at y costau o ddylunio'r gwelliannau i'r promenâd yn Llandrillo yn Rhos (lledu'r ffordd a gosod llwybr i gerddwyr / beicwyr) ac i gytuno i dalu'r arian yma allan o'r arian wrth gefn.

417/15 Dirprwy Faer Etholedig:

Hysbyswyd yr aelodau gan y Clerc ei bod yn ofynnol, yn unol â Rheol Sefydlog 2(k), i ddewis Dirprwy Maer Etholedig 2016/17 trwy dynnu enwau'r Cynghorwyr hynny a etholwyd ym Mai 2012 sydd efo'r union faint o wasanaeth ac sydd wedi datgan y buasent yn barod i dderbyn yr enwebiad. Hysbyswyd y Cyngor bod tri aelod wedi cyflwyno eu henwau i'w cynnwys yn y tyniad a gofynnwyd i'r Maer dewis enw, ar hap, o'r amlen ar ôl dangos y tri enw.

Penderfynwyd, yn dilyn y tyniad, i enwebu'r Cynghorydd J. Pearson i fod yn Ddirprwy Faer Etholedig ar gyfer 2016/17.

Fe nodwyd bod Rheol Sefydlog 2 yn cadarnhau hefyd bod y Dirprwy Maer presennol yn cael ei enwebu i fod yn Faer Etholedig y Dref ar gyfer 2016/17.

418/15 Aelodaeth o Bwyllgorau:

Fe nodwyd y derbyniwyd cais gan un aelod oedd yn dymuno newid Pwyllgorau yn y Cyfarfod Blynyddol ym Mai, pan fydd y Pwyllgorau yn cael eu hail-benodi ar gyfer 2016/17.

Penderfynwyd nodi bod y Cynghorydd S. Roy a V. Smith wedi cytuno i newid Pwyllgorau a bydd hyn yn cael ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Blynyddol ar 9^{ed} Mai.

419/15 Mynediad i Bawb i Eirias:

Fe nodwyd i ddeg tocyn cael eu derbyn ar gyfer cyngerdd Lionel Ritchie ym Mehefin.

Penderfynwyd cymeradwyo dyfarnu dau docyn i'r Maer a'i Gyfarfod ac i gynnal tyniad am yr wyth tocyn Cyngor arall sy'n weddill ar gyfer digwyddiad 19^{eg} Mehefin o enwau'r Cynghorwyr a'r staff a gyflwynwyd eu henwau i'r Clerc.

Tynnodd y Maer yr enwau ac fe hysbyswyd y rhai a fu'n llwyddiannus yn y cyfarfod (a'r Clerc i adael i'r staff nad oeddynt yn bresennol wybod am y canlyniad).

420/15 Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol:

Cyflwynodd y Clerc Cod Ymddygiad Model diwygiedig i'w ystyried, fel paratoad i'w fabwysiadu yn y Cyfarfod Blynyddol sydd i ddod.

Penderfynwyd nodi'r cyhoeddiad o'r Cod Ymddygiad Model a'i gyfeirio at y Cyfarfod Blynyddol i gael ei fabwysiadu.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 p.m.

..... Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL,
HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD,
COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 18TH APRIL 2016**

PRESENT: The Mayor, Cllr Dr S Roy (Chairman)
Cllrs: W Bagnall; Mrs G Baker; J Davies; Mrs L Edwards; R Foreman;
D Griffiths; Mrs L Griffiths; C Hughes; Mrs M Jones; A Khan; A
Mason;
Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; C Perry; Mrs V Perry; P
Richards;
Mrs V Smith; S Taylor; C Wood MBE; S Williams

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

409/15 Apologies for Absence:

The Mayor opened the meeting and apologies for absence were received from Cllr G Ward.

410/15 Mayoral Announcements:

The Mayor informed Members that the Charity Concert on Friday 15th April had been well supported and that the Forties Festival over the weekend had been very successful, with lots of visitors staying in the local area. Members were also reminded about an event to celebrate local talent, which is taking place on 22nd April.

411/15 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

412/15 Wellbeing of Future Generations Act:

The Clerk gave a brief presentation covering the key elements of the Act, including: the duty on named public bodies, the creation of a Future Generations Commissioner, the seven well-being goals, the need to act in accordance with the sustainable development principle, the five ways of working, the definition of sustainable development, links between environmental, social and economic limits, the broader policy landscape and the key points in the Welsh Government's guidance for town and community councils, published in March. A brief question and answer session followed the presentation and Members were then asked to consider the appointment of one or two Wellbeing Champions (possible one sitting on each of the two main committees).

Resolved to defer the appointment of Wellbeing / Future Generations Champions to a future meeting.

413/15 Future Visitors to the Council

The Clerk tabled a request from Cllr D Griffiths that the newly elected Assembly Member and Dr Amit Singh of Penrhyn Bay Surgery be invited to a future meeting to discuss concerns about future provision of GP services, following a recent newsletter circulated by Dr Singh to his patients highlighting the falling numbers of GPs and concerns about large patient / GP ratios.

A discussion took place about who would be the most appropriate people to invite to a meeting to discuss these concerns, with suggestions including a representative from the Health Board, other practising GPs, Member of Parliament, Assembly Member (post elections).

An amendment to the proposal was subsequently proposed and it was

Resolved to:

- a. Write in the first instance to invite Dr Singh (Penrhyn Bay Surgery) together with representatives from all GP surgeries in the Bay of Colwyn Area: Rhoslan, Rysseldene, Cadwgan, Dr Patel and Drs Bisarya (Old Colwyn) to a future meeting to give them an opportunity to discuss any issues they are having providing GP services and possible options/solutions to address these.***
- b. Forward a summary of these concerns and possible solutions to the Chief Executive of Betsi Cadwaladr University Health Board for comment.***
- c. Escalate the concerns to the new AM, if not satisfied with any response received.***

A recorded vote was requested, as detailed below:

In Favour – 20 Members

Against – 1 Member (Cllr W Bagnall)

Abstention – 1 Member (Cllr Mrs L Edwards)

414/15 Minutes:

- a. Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 7th March 2016.***
- b. Resolved to receive a copy of the minutes of the following meetings:***
 - i. The General Purpose & Planning Committee, held on 15th March 2016***
 - ii. The Volunteer Awards Committee, held on 16th March 2016***
 - iii. The Policy & Finance Committee, held on 30th March 2016 (Draft)***
 - iv. The General Purposes & Planning Committee, held on 5th April 2016 (Draft)***

415/15 Matters Arising from Those Minutes:

- a. Min. 364/15 – Long Service Award:**

The Clerk submitted, for consideration, the draft wording for a policy on

long service awards.

Resolved to adopt the policy on long service awards, as detailed in Schedule 'A' attached.

- b. Members were asked to consider and endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:
- i. Min.368/15(a) – To consider delegating authority to the GP&P Committee to approve the purchase of one or two new bus shelters for near Eirias Park from previous years' bus shelter funds remaining with CCBC (£8,992).
 - ii. Min. 372/15 – Centenary Fields: To request that CCBC consider designating Queens Gardens as a World War I Centenary Field.
 - iii. Min. 391/15(a) – Summer Play Schemes: To request five sessions per week for five weeks during the summer, at an estimated (maximum) cost of £6,909.50 (with any shortfall in budget to be funded from reserves).
 - iv. Min. 395/15 – IRPW: To adopt recommendations 48, 49, 50, 52, 53 and 54, as detailed in those minutes.
 - v. Min. 399/15(a) – Youth Grants: To approve the carry forward of sufficient budget to allow payment of deferred grants in 2016/17 financial year.
 - vi. Min. 399/15(c) – Small Grants: To approve payment of the final small grants for 2015/16, as detailed in those Minutes.
 - vii. Min. 399/15(d) – Donation: To approve a donation of £4,500 to the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund from the unspent youth and small grants budgets for 2015/16.
 - viii. Min. 399/15(e) – Large Grant: To approve a late large grant of £2,300 for Cruse Bereavement Care and increase the large grants budget accordingly (from reserves).
 - ix. Min. 403/15(b)(ii) – To include Councillors contact details (tel no and/or e-mail address) in the Annual Report, which will be available via the website or in hard copy on request (circulated via community venues).

Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the above referenced minutes.

- c. ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in those Minutes.***

416/15 Rhos on Sea Promenade:

Resolved to re-confirm the grant of £5,200 previously approved by the Town Council (in 2014/15) towards the costs of design fees for improvement works at Rhos on Sea promenade (road widening and installation of shared use cycle/footway) and to agree that these funds be allocated from reserves.

417/15 Deputy Mayor Elect:

The Clerk informed members that, in accordance with Standing Order 2(k), it is necessary to hold a draw for the Deputy Mayor Elect for 2016/17, from those Councillors elected in May 2012 who have an identical length of service

and have indicated they would be willing to accept the nomination. The Council was informed that three members had submitted their names for inclusion in the draw and the Mayor was requested to select a name at random from the envelope provided, after being shown the three names.

Resolved, following the draw, to nominate Cllr J Pearson as Deputy Mayor Elect for 2016/17.

It was noted that Standing Order 2 also confirms that the current Deputy Mayor be nominated at Town Mayor Elect for 2016/17.

418/15 Committee Membership:

It was noted that a request had been received from one member wishing to change Committees at the Annual Meeting in May, when the Committees will be reappointed for 2016/17.

Resolved to note that Cllrs S Roy and V Smith had agreed to change Committees and this would be approved at the Annual Meeting on 9th May.

419/15 Access all Eirias:

It was noted that an allocation of ten tickets had been received for the Lionel Ritchie concert in June.

Resolved to approve the allocation of two tickets for the Mayor and Consort and carry out the draw for the remaining eight tickets for the Council for the 19th June event from those councillors and staff who had submitted their names to the Clerk.

The draw was conducted by the Mayor and those who had been successful were notified at the meeting (with the Clerk to inform those staff members who were not present).

420/15 Local Government Ethical Framework:

The Clerk submitted, for consideration, the revised Model Code of Conduct, in preparation for its adoption at the forthcoming annual meeting.

Resolved to note the publication of a revised Model Code of Conduct and refer this for formal adoption at the Annual Meeting.

The Meeting Closed at 7.55pm

..... Chairman